



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 10 GORFFENNAF 2019 AM 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad) S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. HARRY (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Gwelliannau Busnes Dros Dro a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), M. Johnson (Uwch Beiriannydd), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), R. Roberts (Rheolwr Perfformiad), A. Dallimore (Arweinydd Tîm - Adnewyddu Trefol) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd C.J. Cuss, R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) a R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd D. V. Poolefuddiant personol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas â Ffedereiddio Ysgolion - Adroddiad Ymateb i Ymgynghoriad. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

3. CABINET – 26 MEHEFIN 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019 fel cofnod cywir.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

4. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN CORFFORAETHOL (2018-2023) 2019

Cyflwynodd yr adroddiad Gynllun Corfforaethol 2018-2023 wedi'i ddiweddarau i'r Cabinet yn dilyn adolygiad i ystyried a yw'r Cynllun yn dal i fod yn addas at y diben.

Cymeradwywyd Cynllun Corfforaethol y Cyngor gan y Cyngor ar 17 Ebrill 2018 a'i gyhoeddi wedi hynny. Mae gan y Cynllun chwe Amcan Llesiant sy'n dymor hir ac wedi'u gosod o fewn yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (y pum ffordd o weithio). Yn dilyn yr adolygiad, maent yn dal i gael eu hystyried yn 'berthnasol', yn addas at y diben ac yn hanfodol i wella ansawdd bywyd i ddinasyddion yr Awdurdod Lleol. O dan Fesur Llywodraeth Leol (2009), mae 'disgwyl' (adran 15.2 a 15.3) y bydd 'Cynllun Gwella' yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn. Fodd bynnag, gan fod y mwyafrif o awdurdodau bellach yn cyhoeddi cynlluniau tymor hwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a / neu yn oes Gweinyddiaeth, mae adolygu'r Cynllun yn flynyddol i wirio ei fod yn dal yn addas at y diben yn cwrdd â hyn. Nodwyd ei bod yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru wirio a yw Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol fel y nodwyd ym mharagraff 4.1 ac i gyhoeddi 'tystysgrif cydymffurfio' mewn ymateb.

Nododd y Cabinet y cyfrifoldebau sylweddol a amlygwyd yn y cynllun ac maent yn adlewyrchu ychwanegu'r Strategaeth Drawsnewid, beth mae hyn yn ei olygu o ran gweledigaeth a diweddariad i'r Fframwaith Perfformiad, Cynllunio a Gwella sy'n sail iddo.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r diwygiadau i Gynllun Corfforaethol diwygiedig 2019 (Atodiad B) i'w ailgyhoeddi.

5. FFEDEREIDDIO YSGOLION - ADRODDIAD YMATEB I YMGYNGHORIAD

Cyhoeddodd y Cynghorydd D. V. Poole fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod yn Llywodraethwr a benodwyd gan AALI yn Ysgol Gynradd Fleur-de-Lis ac Ysgol Gynradd Pengam. Gan fod y buddiant yn bersonol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddo adael y cyfarfod pan gyflwynwyd yr adroddiad a gallai gymryd rhan yn y ddatl a phleidleisio.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ar 2 Gorffennaf 2019, yn darparu manylion canlyniad y broses ymgynghori ffurfiol ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ffedereiddio'r grwpiau canlynol o ysgolion yn ffurfiol o 1 Medi 2019:

Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol Gynradd y Parc
Ysgol Gynradd Fleur-de-Lis ac Ysgol Gynradd Pengam
Ysgol Iau Bedwas ac Ysgol Gynradd Rhydri
Ysgol Gynradd Cwmfelin-fach ac Ysgol Gynradd Ynys-ddu

Nododd y Cabinet fod Cyrff Llywodraethol yr ysgolion eisoes wedi bod yn gweithio ar y cyd am nifer o flynyddoedd a gofynnodd i'r Awdurdod eu cefnogi yn y broses i symud i ffederasiwn ffurfiol. Cytunwyd ar y cais i symud ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethol pob ysgol gan y Cabinet ar 11 Gorffennaf 2018. Rhedodd y cynnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer pob ysgol rhwng 22 Hydref 2018 a 10 Rhagfyr 2018. Ar 6 Tachwedd 2018, ymgynghorwyd ag Aelodau Craffu Addysg ar y cynnig i ffedereiddio'r 4 grŵp o ysgolion yn ffurfiol ac roeddent yn cefnogi'n unfrydol. Mae crynodeb o'r ymatebion, y manylir arnynt ym mhrif gorff yr adroddiad, wedi'i drafod yn fanwl gyda phob Corff Llywodraethu ac maent i gyd

wedi cadarnhau'n unfrydol eu bod yn cytuno i fwrw ymlaen â'r cynnig i ffedereiddio. Yn ei gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ar Addysg a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2019, cefnogodd yr Aelodau yn unfrydol yr argymhelliad i ffedereiddio'r 4 grŵp o ysgolion.

Nodwyd, pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad, yna bydd yr Offeryn Llywodraethu newydd ar gyfer pob Corff Llywodraethu ffederal yn cael ei ddrafftio a bydd y Cyrff Llywodraethu ar wahân yn cael eu diddymu a bydd y Cyrff Llywodraethu newydd yn cael eu sefydlu'n barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad, ac yn benodol, y gwytnwch a'r cynaliadwyedd y mae'r broses hon yn eu darparu ar gyfer yr ysgolion hyn. Cydnabu'r Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad fod hon wedi bod yn broses ddysgu i bawb dan sylw. Ychwanegodd mai Caerffili yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd â 4 grŵp o ysgolion ffederal a theimlai y bydd hwn yn fodel defnyddiol wrth symud ymlaen. Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion yn yr Awdurdod, Staff yn yr Ysgolion a'r Llywodraethwyr am eu rhan a'u mewnbwn yn ystod y broses ymgysylltu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, bod Swyddogion yn mynd ymlaen i ffederaleiddio'n ffurfiol y grwpiau o ysgolion a nodwyd ym mharagraff 1.1, fel a ganlyn:

Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol Gynradd y Parc;

Ysgol Gynradd Fleur-de-Lis ac Ysgol Gynradd Pengam;

Ysgol Iau Bedwas ac Ysgol Gynradd Rhydri;

Ysgol Gynradd Cwmfelin-fach ac Ysgol Gynradd Ynys-ddu

6. RHAGLEN BAND B YSGOLION AC ADDYSG YR 21AIN GANRIF

Diweddarodd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ar 2 Gorffennaf 2019, y Cabinet ar raglen Band B Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif sy'n rhedeg rhwng 2019 a 2026. Cytunwyd ar gynigion Band B gan y Cabinet ar 25 Ebrill 2018 a chytunodd y Cyngor ar 21 Chwefror 2019 i ddyrannu £5.475 miliwn i gyllid cyfatebol rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Y cynlluniau blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer Cam 1 y rhaglen yw ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn. Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu yr argymhelliad hwn yn llawn ar 2 Gorffennaf 2019.

Nodwyd bod cyfraddau ymyrryd y rhaglen wedi newid, fel yr amlinellwyd yng nghorff yr adroddiad. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yng nghyfraniad y Cyngor i'r rhaglen yn gyffredinol o £39.15 i £26.8 miliwn. Mae manyleb gychwynnol yr ehangu a gynigiwyd ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod wedi arwain at argymhelliad i gynyddu'r dyraniad ar gyfer y prosiect hwn o £5 miliwn i £10 miliwn. Byddai'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo o'r rhaglen adnewyddu ac mae'n unol â disgwyliad LIC i brosiectau fod yn arloesol ac i gael eu hystyried yn "gyfle unwaith mewn oes". Er mwyn cyflawni hyn a diogelu'r ysgol yn gadarn at y dyfodol, mae'r cynnydd mewn buddsoddiad i £10 miliwn yn hanfodol.

Nododd y Cabinet fod y ddau brosiect, a amlinellir ym mharagraff 2.3, yn yr adroddiad yn y cam datblygu cynnar a bydd Swyddogion yn sicrhau bod Aelodau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd mewn perthynas â phob agwedd ar y cynnig e.e. ariannol, achos busnes, proses ymgynghori ac ati. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd cyfraniad cyllid cyfatebol rhagamcanol cyfredol y Cyngor i gyflawni'r ddau gynllun yn £5.1 miliwn. Os cytunir ar y cynnydd ar gyfer

Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, byddai hyn yn lleihau cyfraniad cyffredinol y Cyngor o £26.8 miliwn i £26.3 miliwn.

Roedd y Cabinet yn falch o gefnogi'r argymhelliad ac roedd yn cydnabod bod hwn yn gam sylweddol ymlaen gyda'r cynnydd yn y gyfradd ymyrryd yn cynrychioli 'gwerth am arian' sylweddol ar gyfer y ddau gynnig. Diolchodd yr aelodau i'r Swyddogion am eu hadroddiad cynhwysfawr. O ran Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, ychwanegodd Swyddogion fod y cynnig hwn yn 'gyfle unwaith mewn oes' a bydd Caerffili yn Awdurdod blaenllaw wrth symud ymlaen drwy greu Canolfan Ragoriaeth. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol ar y prosiect hwn a bydd hyn yn parhau y tu hwnt i'r cam cwblhau gan greu cyfleoedd anhygoel pellach tu mewn i'r ysgol i blant.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, y dylid cynyddu'r cyfraniad ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod o £5 miliwn i £10 miliwn.

7. BWRDD ADFYWIO – CYNIGION PROSIECT (TRANCHE 3)

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau Tranche 3 a nodwyd gan y Bwrdd Prosiectau Adfywio ac a aseswyd gan y Panel Asesu i'w chymeradwyo a'u hariannu drwy Gronfa Datblygu Prosiectau'r Bwrdd Adfywio.

Nodwyd, yn ei gyfarfod ar 30 Mai 2018, fod y Cabinet wedi cytuno i sefydlu Bwrdd Prosiectau Adfywio gyda chynrychiolaeth wleidyddol drawsbleidiol o Gynghorwyr ynghyd â swyddogion allweddol. Cefnogir y grŵp hwn gan Banel Asesu Adfywio sy'n cynnwys swyddogion o ystod o feysydd gwasanaeth. Mae'r Panel Asesu Adfywio a'r Bwrdd Prosiectau Adfywio wedi cyfarfod i ystyried y saith prosiect cyntaf a nodwyd gan y Bwrdd i symud ymlaen i'r Cam Asesu. Nodwyd bod tranche cyntaf y prosiectau hyn (mae pedwar ohonynt) wedi'i gymeradwyo yn y Cabinet ar 13 Chwefror 2019 tra bod yr ail tranche wedi'i gymeradwyo ar 29 Mai 2019.

Trafododd y Cabinet y pedwar prosiect sydd wedi cael eu hasesu a'u hystyried, sef, Uwchgynllun ar gyfer tir y sector cyhoeddus yn Ystrad Mynach, gwaith hyfywedd ar gyfer y Powerhall (hen Lofa Penallta), cyfleusterau gyrwyr coetsis, Castell Caerffili a Thŷ Du - cyflogaeth ychwanegol unedau ychwanegol. Dywedodd swyddogion nad oedd y ddau brosiect cyntaf wedi sgorio'n ddigon uchel yn y broses asesu i'w datblygu ar gyfer Cymeradwyo'r Cabinet a bod angen gwneud rhagor o waith i gwmpasu'r prosiectau hyn yn llawn. Sgoriodd yr ail ddau brosiect yn dda ac mae'r Bwrdd Prosiectau Adfywio yn argymhell y dylid dyfarnu Cyllid Datblygu Adfywio i'r prosiectau hyn i hyrwyddo eu datblygiad. Nodir manylion pob un o'r prosiectau a ystyriwyd ac a aseswyd ym mharagraff 5 o adroddiad y Swyddog.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

- (i) cymeradwyo cynnydd Prosiectau Tranche 3;
- (ii) O'r £1.21m sy'n weddill o Gronfa Datblygu Prosiectau'r Bwrdd Adfywio, dyrannu £90,000 i gynlluniau blaenoriaeth Tranche 3, a nodwyd gan y Bwrdd Prosiectau Adfywio.

8. DATBLYGU ISADEILEDD - SYMIAU GOHIRIEDIG

Amlinellodd yr adroddiad gynigion yn ymwneud â chodi symiau gohiriedig sy'n daladwy gan ddatblygwyr am gynnal a chadw a gwaith cysylltiedig i asedau isadeiledd cymwys yn y dyfodol (nad ydynt yn eiddo preifat) a gynigir i'w mabwysiadu am oes y datblygiad.

Cynghorwyd y Cabinet, o ystyried yr amrywiad cyfredol yn y defnydd a'r gweithredu o symiau gohiriedig gan wahanol wasanaethau yn y Cyngor, argymhellwyd y dylid mabwysiadu dull cyson ar gyfer cyfrifo taliadau symiau gohiriedig gan ddatblygwyr ar gyfer cynnal a chadw ac amnewid asedau mabwysiedig yn y dyfodol. O ystyried y pwyslais cynyddol ar ddarparu datblygu cynaliadwy a lleoedd cynaliadwy i fyw ynddynt, mae awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn wynebu pwysau cynyddol a fyddai fel rheol yn atal datblygiadau gwell o'r fath rhag cael eu cynnal i'r safon briodol oni cheisir cael taliadau gan y datblygwr am y costau dan sylw.

Y bwriad yw i'r awdurdod lleol a datblygwyr ddefnyddio'r fethodoleg symiau gohiriedig, a fydd yn darparu dull tryloyw a chyson o gyfrifo symiau gohiriedig, ac ni fydd yn rhoi unrhyw faich annerbyniol ar gyllidebau cynnal a chadw CBSC na phwrs y wlad. Bydd eglurder y dull yn helpu i gael gwared ar yr ansicrwydd a'r risg i ddatblygwyr yn gynnar yn y broses ddatblygu, a bydd hefyd yn darparu mecanwaith a ariennir yn gynaliadwy ar gyfer adrannau awdurdodau lleol, gan alluogi datblygu i symud ymlaen gyda llawer mwy o sicrwydd ynghylch cyfanswm y gofynion a'r ymrwymiad. Mae'r fethodoleg ar gyfer symiau gohiriedig wedi'i datblygu yn unol â chanllawiau safonol y diwydiant a baratowyd gan Gymdeithas Syrfewyr y Sir ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ei hargymell drwy'r ddogfen ganllaw statudol fel rhan o swyddogaeth statudol y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 25 Mehefin 2019 ac roedd yr Aelodau'n unfrydol yn cefnogi'r argymhellion ym mharagraff 3 o adroddiad y Swyddog.

Roedd y Cabinet yn cydnabod ac yn cefnogi'r angen i gyflwyno dull cyson ar gyfer cyfrifo'r symiau hyn er mwyn gwella eglurder i ddatblygwyr ac i'r gwahanol adrannau ar draws yr Awdurdod Lleol. Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod Swyddogion o'r Tîm Peirianeg wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr fel Hyrwyddwyr Systemau Draenio Cynaliadwy Sudrain 2019. Maent wedi arloesi gwaith dehongli atebion draenio cynaliadwy Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd ar flaen y gad o ran sefydlu Systemau Draenio Cynaliadwy arloesol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r tîm ddatblygu model y gellir ei gyflwyno i bob Awdurdod Lleol ledled Cymru, y bydd angen ei reoli a'i gynnal hefyd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, cymeradwyo:

- (i) gweithredu dull cyson o gyfrifo a gweithredu taliadau i ddatblygwyr mewn perthynas â symiau gohiriedig, a fydd yn talu costau cynnal a chadw'r holl asedau isadeiledd cymwys a gynigir i'w mabwysiadu am oes y datblygiad yn y dyfodol;
- (ii) gosod gofyniad i bob datblygwr sy'n ymrwymo i Gorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy, adran 38 ac adran 278 Cytundebau Priffyrdd, ac adran 106 Cytundeb Cynllunio neu unrhyw fath arall o Gytundeb Cyfreithiol yr ymrwymwyd iddo gyda CBS Caerffili, i godi symiau gohiriedig ar gyfer gofynion cynnal a chadw ac amnewid yn y dyfodol am y gweithfeydd a adeiladwyd ganddynt ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor;

- (iii) defnyddio cyfradd ddisgownt o 2.0% ac oes datblygu o 60/12 mlynedd yn dibynnu ar yr ased y cynigir ei fabwysiadu;
- (iv) Mae swyddogion yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau bob 6 mis mewn perthynas â'r holl symiau gohiredig a dderbynnir gan yr Awdurdod;
- (v) adolygir y broses y cytunwyd arni ar ôl 2 flynedd o weithredu a, lle bo angen newidiadau, cyflwyno adroddiad yn y dyfodol i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

9. YSTYRIED CAIS GALW I MEWN - NEWIDIADAU ARFAETHEDIG MEWN FFFIOEDD A THALIADAU

Atgoffwyd y Cabinet bod yr Aelodau, yn eu cyfarfod ar 27 Mawrth 2019, wedi ystyried adroddiad ar Newidiadau Arfaethedig mewn Ffioedd a Thaliadau, a chefnogant yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog yn unfrydol:

- (i) Nodi'r gwasanaethau lle mae angen gwneud newidiadau i ffioedd a thaliadau, a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr, yr Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol i weithredu newidiadau yn unol â chwyddiant a/neu amodau masnachol sy'n bodoli ar gyfer y gwasanaeth; a
- (ii) Mae'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cofnodi ac yn postio unrhyw gynnydd mewn ffioedd a thaliadau yn unol â chynllun neu ddirprwyaeth yr awdurdod

Yn dilyn hynny, galwyd yr adroddiad i mewn a'i ystyried gan y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 28 Mai 2019. Ar ôl ystyried yr adroddiad ac wrth gefnogi'r cais galw i mewn, argymhellodd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn unfrydol i'r Cabinet:-

- (i) ailystyried yr adroddiad ar y Newidiadau Arfaethedig mewn Ffioedd a Thaliadau ochr yn ochr â barn y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau; a
- (ii) bod cap sy'n cyfateb i lefel Mynegai Prisiau Defnyddwyr mis Medi blaenorol mewn perthynas ag unrhyw godiadau arfaethedig mewn ffioedd yn cael ei weithredu, a bod unrhyw godiadau uwchlaw'r lefel hon yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ac wedi hynny y Cabinet i'w penderfynu, gydag unrhyw newidiadau yn is na'r lefel hon yn cael eu hawdurdodi o dan y pwerau dirprwyedig fel y'u nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol i'r Cabinet ar 27 Mawrth 2019.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r argymhellion uchod a chymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, a nodi y bydd angen ymgorffori gosod cap yn y rheoliadau ariannol.

Ystyriodd y Cabinet yn llawn y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu fel y'u nodwyd ym mharagraffau 1.5 i 1.8 yn yr adroddiad eglurhaol. O ran paragraff 1.7, cadarnhawyd bod y Tîm Cyllid wedi archwilio faint o referniw y gellid ei gynhyrchu ar gyfer y meysydd gwasanaeth lle cynigir dirprwyo a chadarnhaodd fod pob cynnydd o 1% yn cyfateb i oddeutu £79k. Darparwyd eglurhad bod taliadau gwasanaeth yn cystadlu â'r sector masnachol a darparwyd enghreifftiau o feysydd gwasanaeth fel gwastraff masnachol, nwyddau ac arlwyyo sy'n gystadleuol a nodwyd bod llawer o'r rhain yn wasanaethau dewisol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion gwreiddiol yn yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Cabinet ar 27 Mawrth 2019, yn cael eu cymeradwyo ac y dylid ychwanegu argymhelliad ychwanegol *y dylid adolygu'r dull ehangach ar draws y Cyngor*

mewn perthynas â ffioedd a thaliadau a dylid ymgorffori cynigion ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn y Strategaeth Fasnachol a Buddsoddi a fydd yn cael ei hystyried gan y Cabinet ym mis Hydref 2019. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod:

- (i) nodi'r gwasanaethau lle mae angen gwneud newidiadau i ffioedd a thaliadau a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr, yr Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol i weithredu newidiadau yn unol â chwyddiant a/neu amodau masnachol sy'n bodoli ar gyfer y gwasanaeth(au), a
- (ii) bod y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cofnodi ac yn postio unrhyw gynnydd mewn ffioedd a thaliadau yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod;
- (iii) y dylid adolygu'r dull ehangach ar draws y Cyngor mewn perthynas â chynnydd mewn ffioedd a thaliadau ac ymgorffori cynigion ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn y Strategaeth Fasnachol a Buddsoddi a fydd yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn Hydref 2019.

10. LLUOEDD ARFOG - CYNLLUN GWARANTU CYFWELIAD

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i weithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer ymadawyr, milwyr wrth gefn, cyn-filwyr a phriod y Gwasanaeth Lluoedd Arfog os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer swyddi gwag ac i gytuno i ymgysylltu â'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd wrth recriwtio ymadawyr gwasanaeth.

Nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn llofnodwr i Gyfamod y Lluoedd Arfog, a lansiwyd yn 2011 gan Lywodraeth y DU, i hyrwyddo a chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn gosod disgwyliad ar lofnodwyr y byddant yn sicrhau bod Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt dan anfantais o ganlyniad i'w gwasanaeth. Daeth CBSC yn llofnodwr gwirfoddol i'r Cyfamod yn 2013. Mae Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys gwobrau Efydd, Arian ac Aur ar gyfer gyflogwyr (gan gynnwys awdurdodau lleol) sy'n addo, dangos neu eirioli cefnogaeth i amddiffyn a Chymuned y Lluoedd Arfog, ac mae'n ysbrydoli eraill i wneud yr un peth. Ar hyn o bryd mae gan CBSC y Wobr Arian. Mesur cefnogol ar gyfer ennill y wobr hon, er nad yw'n ofyniad hanfodol, yw gweithredu'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog. Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod cais ar gyfer y Wobr Aur wedi'i gyflwyno.

Nododd y Cabinet nad yw'r Cynllun yn gwarantu penodiad i swydd wag ac y bydd gweithdrefnau dethol yn dal i sicrhau bod yr ymgeisydd gorau yn cael ei benodi i'r swydd wag. Roedd yr aelodau'n falch o gefnogi'r cynllun rhagorol hwn sydd hefyd yn dangos ymrwymiad y Cyngor i amddiffyn a Chymuned y Lluoedd Arfog.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

- (i) gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer ymadawyr gwasanaeth, cyn-filwyr, milwyr wrth gefn a phriod;
- (ii) bod swyddogion i weithio gyda'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd (www.ctp.org.uk), gwasanaeth recriwtio dim cost i sefydliadau sy'n chwilio am gyn-filwyr uchel eu cymhelliant a phrofiadol, sy'n gadael y Lluoedd Arfog.

11. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Flaenraglen Waith am y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2019. Mae'r Flaenraglen Waith yn cael ei diweddarau bob wythnos i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir iddi ers iddi gael ei chytuno gyntaf ar 22 Ionawr 2014.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod 3 dyddiad arall wedi'u hychwanegu at y Rhaglen ers ei chyhoeddi, sef, 16 Hydref 2019 i ystyried yr Adroddiad Gwirfoddoli Corfforaethol, a 30 Hydref 2019 i ystyried Adroddiad Uwchgynllun Blaenau'r Cymoedd. Yn ogystal, mae Blaenraglen y Cabinet wedi'i threfnu ar gyfer y cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2019.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac yn amodol ar y uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diweddariadau canlynol ac am y rhesymau a drafodwyd yn y cyfarfod, y dylid cyhoeddi Blaenraglen y Cabinet ar wefan y Cyngor:

- (i) cynnal cyfarfod y Cabinet ar 16 Hydref 2019 i ystyried yr Adroddiad Gwirfoddoli Corfforaethol;
- (ii) cynnal cyfarfod y Cabinet ar 30 Hydref 2019 i ystyried Adroddiad Uwchgynllun Blaenau'r Cymoedd;
- (iii) ychwanegu Adroddiad Blaenraglen Waith y Cabinet at gyfarfod y Cabinet ar 11 Rhagfyr 2019.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.20am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 4 Medi 2019.

CADEIRYDD